OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1679 (Cy. 216) (C. 96)

# MEINWEOEDD DYNOL, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (Cychwyn) 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o'r Ddeddf ar 12 Medi 2015 at ddibenion gwneud rheoliadau.

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym bob darpariaeth arall yn y Ddeddf ar 1 Rhagfyr 2015 ac eithrio—

(a) is-adran 14(3)(b) (sy'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y crwner o dan amgylchiadau penodol cyn gweithredu yn ôl awdurdod o dan adran 13 i breserfio rhan o gorff at ei thrawsblannu);

(b) is-adran 15(4)(e); ac

(c) adrannau 1, 2, 21 a 22, a ddaeth i rym ar 10 Medi 2013, pan gafodd y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1679 (Cy. 216) (C. 96)

# MEINWEOEDD DYNOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (Cychwyn) 2015

*Gwnaed* *9 Medi 2015*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau yn adran 21(1), (2) a (5) o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013(**1**).

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (Cychwyn) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 12 Medi 2015**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 12 Medi 2015—

(a) adrannau 7 i 9 at ddiben gwneud rheoliadau;

(b) adran 15, ac eithrio paragraff (e) o is-adran (4); ac

(c) adran 20.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2015**

**3.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 1 Rhagfyr 2015—

(a) adrannau 3 i 6;

(b) adrannau 7 i 9 (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym);

(c) adrannau 10 i 13;

(d) adran 14, ac eithrio paragraff (b) o is-adran (3); ac

(**1**) 2013 dccc 5.

(e) adrannau 16 i 19.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
9 Medi 2015